Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Ymyriadau rhagsefydlu ar gyfer cleifion ar restrau aros llawfeddygol dewisol

Crynodeb o dystiolaeth pwnc ar ymyriadau rhagsefydlu seicolegol.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd/This document is also available in English**

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Cynnwys


Llawdriniaeth ar y galon: .......... 5

Ymyriadau newid ymddygiad aml-gydrannol ar gyfer lleihau ffactorau risg coronaidd mewn cleifion sy'n aros am lawdriniaeth Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydwelïau Coronaidd .......... 5

Llawdriniaeth orthopedig: .......... 8

Ymyriadau hunanreoli addysgol a seicolegol aml-gydrannol ar gyfer cleifion sy'n aros i gael gosod clun neu ben-glin newydd cyflawn.(5) .......... 8

Rhaglenni cydrannol rheoli poen (yn ymgorffori technegau seicolegol ac addysg) ar gyfer cleifion sy'n aros am.(4) .......... 10

Cyfeiriadau: .......... 12


## Cefndir

Ar hyn o bryd, mae amseroedd aros yn y GIG yn uwch nag erioed, gyda rhestrau aros arbennig o hir ym maes llawdriniaeth ddewisol. Gall disgwyl am amser maith am lawdriniaeth effeithio'n negyddol ar gleifion a allai brofi canlyniadau iechyd gwaeth, iechyd meddwl gwael, clefydau'n datblygu ymhellach, neu hyd yn oed farwolaeth[1]. Gallai'r amser a dreulir yn disgwyl am lawdriniaeth gael ei ddefnyddio'n well yn paratoi cleifion. Nod ymyriadau rhagsefydlu yw gwella iechyd a lles cyffredinol cyn llawdriniaeth fawr, trwy ymyrryd yn y cyfnod cyn llawdriniaeth i addasu ffactorau risg ymddygiadol a ffordd o fyw a allai gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau cyn llawdriniaeth ac yn y tymor hwy.

Nod y crynodeb hwn o dystiolaeth pwnc yw archwilio:

1) Pa ymyriadau rhagsefydlu i oedolion ar restrau aros llawfeddygol dewisol sy'n effeithiol?
2) Pa nodweddion/cydrannau o ymyriadau rhagsefydlu i oedolion ar restrau aros llawfeddygol sy'n bwysig i'w llwyddiant?

Mae'r crynodeb hwn o dystiolaeth pwnc yn crynhoi ymyriadau rhagsefydlu seicolegol a nodwyd gan ein chwiliad tystiolaeth cyflym. Cafodd astudiaethau eu cynnwys os oeddent yn edrych ar ymyriadau rhagsefydlu i gefnogi cleifion wrth aros am lawdriniaeth, a lle aseswyd canlyniadau cyn llawdriniaeth i bennu effaith yr ymyriadau ar iechyd cleifion yn ystod y cyfnod cyn y llawdriniaeth. Nid yw canlyniadau ar ôl llawdriniaeth wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn gan fod y diddordeb ar gleifion cyn llawdriniaeth, ac oherwydd y nifer fawr o ganlyniadau cyn llawdriniaeth a ddisgrifir yn yr astudiaethau. Yn seiliedig ar

[1] Okolie C, et al. 2022. A rapid review of the effectiveness of innovations to support patients on elective surgical waiting lists. *Medrxiv* DOI: 10.1101/2022.06.10.22276151
https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2022.06.10.22276151v1.full.pdf

ddata a dynnwyd o'r ffynonellau a nodwyd, mae ymyriadau rhagsefydlu ar gyfer cleifion ar restrau aros llawfeddygol dewisol sy'n cynnwys cydrannau tebyg wedi'u grwpio gyda'i gilydd i greu crynodeb naratif ac asesiad o'r hyn y mae'r dystiolaeth yn awgrymu a allai fod yn effeithiol neu beidio, a'r hyn sydd angen rhagor o ymchwil. Mae amrywiaeth eang o ganlyniadau wedi'u cynnwys yn y crynodebau er mwyn rhoi darlun mwy cyflawn ynghylch pa fathau o ganlyniadau y gallai ymyriadau rhagsefydlu fod yn effeithiol ar eu cyfer neu beidio. Graddiwyd canlyniadau ar gyfer pob ymyriad gan ddefnyddio'r allwedd isod i ddangos a yw'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r ymyriad fod yn effeithiol neu beidio ar gyfer gwella canlyniad o ddiddordeb.

Nodwyd pum astudiaeth adsefydlu seicolegol a oedd yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant cyffredinol ar gyfer y pwnc hwn. Cynhaliwyd tair astudiaeth[1-3] mewn cleifion ar restrau aros am lawdriniaeth ar y galon a dwy astudiaeth[4, 5] mewn cleifion oedd yn aros am lawdriniaeth Orthopedig. Roedd yr astudiaethau a gynhwyswyd yn aml-gydrannol, yn ymgorffori rhyw elfen o addysg yn aml hefyd.

✓ Bwriad y crynodebau hyn yw:

- Cefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am bolisïau neu gamau gweithredu cenedlaethol neu leol
- Cefnogi sgyrsiau archwiliadol am ymyriadau, rhaglenni a gwasanaethau drwy:
  - Amlygu'r mathau o ymyriadau yr ymchwiliwyd iddynt
  - Amlygu'r mathau o ymyriadau sy'n dangos canlyniadau addawol ac sy'n deilwng o archwilio pellach sy'n benodol i'r cyd-destun
  - Amlygu'r mathau o ymyriadau sy'n llai tebygol o gael eu cefnogi gan y dystiolaeth ac y dylid eu hosgoi ar hyn o bryd.

✗ Nid bwriad y crynodebau hyn yw:

- Rhoi asesiad ansawdd a chyd-destunol manwl o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob ymyriad ac ni ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i ddyrannu adnoddau
- Ystyried blaenoriaethau sy'n cystadlu, addasu i gyd-destun lleol, effeithio ar faint na chostau
- Ymdrin â'r holl ymyriadau posibl.

**Allwedd Graddio Tystiolaeth:**

| Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai'r ymyriad gael effaith gadarnhaol ar y canlyniad hwn: Cefnogir yr ymyriad gan dystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol o'i effeithiolrwydd ar gyfer y canlyniad hwn | |
|---|---|
| Esboniad: Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu harfarnu fel rhai o ansawdd da neu gymedrol ac maent yn dangos effaith o blaid yr ymyriad ar gyfer y canlyniad hwn | Ystyriaethau pellach: Angen archwilio pellach sy'n benodol i'r cyd-destun (y gallu i gyffredinoli i Gymru). Ystyried gwerthuso trylwyr os yw'r mathau hyn o raglenni'n cael eu gweithredu |

| Angen ymchwil pellach: Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr ymyriad hon yn cynnwys astudiaethau o ansawdd gwael i raddau helaeth ar gyfer y canlyniad hwn | |
|---|---|
| Esboniad: Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu harfarnu fel rhai o ansawdd gwael, ond maen nhw'n dal i ddangos effaith ar gyfer y canlyniad o blaid yr ymyriad<br>NEU<br>Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu harfarnu fel rhai o ansawdd gwael ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar y canlyniad hwn o blaid yr ymyriad | Ystyriaethau pellach: Angen ymchwil sylfaenol mwy cadarn a gwerthuso trylwyr |
| **Angen ymchwil pellach:** Mae'r sylfaen dystiolaeth yn anghyson. Efallai y bydd rhywfaint o dystiolaeth yn cefnogi'r defnydd o'r ymyriad hon ar gyfer y canlyniad hwn, ond nid yw'n bendant | |
| Esboniad: Mae canlyniadau astudiaethau yn anghyson heb fwyafrif clir o blaid neu yn erbyn yr ymyriad, waeth beth fo'r ansawdd | Ystyriaethau pellach: Angen ymchwil sylfaenol mwy cadarn a gwerthuso trylwyr |
| **Angen ymchwil pellach:** Mae diffyg tystiolaeth am yr ymyriad hon ar gyfer y canlyniad hwn | |
| Esboniad: Dim ond un astudiaeth sydd wedi'i nodi ar gyfer yr ymyriad hon (waeth beth fo'r ansawdd) | Ystyriaethau pellach: Angen mwy o ymchwil sylfaenol a gwerthuso trylwyr |

| Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na fydd yr ymyriad yn effeithiol ar gyfer y canlyniad hwn o reidrwydd: Mae yna dystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol i awgrymu bod yr ymyriad hon yn debygol o fod yn aneffeithiol ar gyfer y canlyniad hwn | |
|---|---|
| Esboniad: Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu harfarnu fel rhai o ansawdd da neu gymedrol ond nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar yr ymyriad ar gyfer y canlyniad hwn | Ystyriaethau pellach: Mae'r ymyriadau hyn yn llai tebygol o gael eu cefnogi gan dystiolaeth a dylid eu hosgoi ar hyn o bryd |

# Llawdriniaeth ar y galon:

**Ymyriadau newid ymddygiad aml-gydrannol ar gyfer lleihau ffactorau risg coronaidd mewn cleifion sy'n aros am lawdriniaeth Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydwelïau Coronaidd.** [1-3]

*Sylwer, lle mai dim ond mewn un astudiaeth y mae'r canlyniadau wedi'u hasesu, mae'r rhain wedi'u graddio fel tystiolaeth annigonol yn ddiofyn. Er gwaethaf hyn, gwnaed ymgais yn y crynodeb i adrodd ar effeithiolrwydd yr astudiaethau.*

## Crynodeb o'r ymyriad:

Archwiliodd un astudiaeth o ansawdd da[3] a dwy astudiaeth o ansawdd cymedrol [1, 2] ymyriadau newid ymddygiad aml-gydrannol ar gyfer lleihau ffactorau risg coronaidd mewn cleifion sy'n aros am Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydwelïau Coronaidd.

Roedd y tri ymyriad yn cael eu harwain gan nyrsys[1-3] a'u nod oedd mynd i'r afael â ffactorau risg clefyd coronaidd y galon ac annog a hwyluso newid ymddygiad. Roedd dwy astudiaeth yn cynnwys sesiynau misol gyda nyrs[2, 3], tra bod un yn cynnwys sesiwn gychwynnol a galwad ffôn misol ddilynol[1]. Cafodd ymyriadau pellach, cyngor a thriniaeth fel meddyginiaeth a chwnsela eu teilwra ar gyfer cyfranogwyr unigol yn seiliedig ar y ffactorau risg ymddygiadol a nodwyd o'r sesiynau dan arweiniad nyrsys.[1-3] Roedd un astudiaeth yn ceisio chwalu camdybiaethau cyffredin am y galon hefyd, ac roedd hefyd yn cynnwys rhaglen ymlacio.[1]

Cymharwyd ymyriadau â gofal arferol[3], neu addysg a chwnsela nyrsys nad oedd yn benodol i gamdybiaethau'r galon[1]. Nid yw un astudiaeth yn nodi'r hyn a gafodd y grŵp rheolydd.[2]

## Canlyniadau:

Mae tystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol i awgrymu bod **ymyriadau newid ymddygiad aml-gydrannol ar gyfer lleihau ffactorau risg coronaidd mewn cleifion sy'n aros am Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydwelïau Coronaidd yn debygol o fod yn effeithiol** ar gyfer y canlyniadau canlynol:

*Iselder:*

- **Gallai fod yn effeithiol** (dwy astudiaeth[1, 2] o ansawdd cymedrol yn dangos gwelliannau yn y grŵp ymyriad o'i gymharu â'r grŵp rheolydd. Un astudiaeth o ansawdd cryf[3] yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).

*Costeffeithiolrwydd:*

**Gallai fod yn gost-effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cryf[3] ac un o ansawdd cymedrol yn dod i'r casgliad y gallai'r ymyriad gael ei ystyried yn gost effeithiol).

**Mae'r dystiolaeth ar gyfer ymyriadau aml-gydrannol newid ymddygiad ar gyfer lleihau ffactorau risg coronaidd mewn cleifion sy'n aros am Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydwelïau Coronaidd yn anghyson** ar gyfer y canlyniadau canlynol:

*BMI (ffactor risg clefyd coronaidd y galon):*

- **Anghyson** (un[3] astudiaeth o ansawdd cryf ac un o ansawdd cymedrol[2]; effeithiau anghyson ar draws astudiaethau).

*Pwysedd gwaed (ffactor risg clefyd coronaidd y galon):*

**Anghyson** (un[3] astudiaeth o ansawdd cryf ac un o ansawdd cymedrol[2]; effeithiau anghyson ar draws astudiaethau).

*Ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd:*

**Anghyson** (un[3] astudiaeth o ansawdd cryf ac un o ansawdd cymedrol[2]; effeithiau anghyson ar draws astudiaethau).

Mae tystiolaeth o ansawdd da neu gymedrol i awgrymu bod **ymyriadau newid ymddygiad aml-gydrannol ar gyfer lleihau ffactorau risg coronaidd mewn cleifion sy'n aros am Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydwelïau Coronaidd yn debygol o fod yn aneffeithiol** ar gyfer y canlyniadau canlynol:

*Gorbryder:*

**Efallai na fydd yn effeithiol** (Un astudiaeth o ansawdd cryf[3] ac un o ansawdd cymedrol[1] yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd. Dangosodd un astudiaeth o ansawdd cymedrol[2] welliant yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).

*Colesterol (ffactor risg clefyd coronaidd y galon):*

**Efallai na fydd yn effeithiol** (Un astudiaeth o ansawdd cryf [3] ac un o ansawdd cymedrol[2]a'r ddwy'n dangos nad oedd unrhyw welliant yng nghyfanswm lefelau colesterol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd. Dangosodd un astudiaeth(2) o ansawdd cymedrol welliant mewn crynodiad colesterol plasma cymedrig yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).

Mae'r dystiolaeth ar gyfer **ymyriadau aml-gydrannol newid ymddygiad ar gyfer lleihau ffactorau risg coronaidd mewn cleifion sy'n aros am Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydwelïau Coronaidd yn ddiffygiol** ar gyfer y canlyniadau canlynol:

*Gweithrediad corfforol:*

**Gallai fod yn effeithiol** (Un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos gwelliant arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[1]

*Camdybiaethau cardiaidd:*

**Gallai fod yn effeithiol** (Un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[1]

*Digwyddiadau niweidiol:*

Nododd un astudiaeth o ansawdd cymedrol nad oedd unrhyw ddigwyddiadau niweidiol difrifol o'r ymyriad.[1]

*Rhoi'r gorau i ysmygu (ffactor risg clefyd coronaidd y galon):*

**Gallai fod yn effeithiol** (Un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[2]

*Gweithgarwch corfforol (ffactor risg clefyd coronaidd y galon):*

**Gallai fod yn effeithiol** (Un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[2]

*Boddhad cleifion:*

Adroddodd un astudiaeth o ansawdd cymedrol fod cleifion, yn gyffredinol, yn fodlon â'r ymyriad.[2]

**Y gallu i gyffredinoli:**

Cynhaliwyd y tair astudiaeth yn y DU ac felly efallai y gellir eu cyffredinoli i Gymru.[1-3]

**Cymhwysedd:**

Roedd y dystiolaeth ar gyfer y canlyniadau a restrir uchod yn deillio o gleifion a oedd yn aros am lawdriniaeth Grafftiad i Ddargyfeirio'r Rhydweliau Coronaidd, ac felly efallai na fydd yn berthnasol i gleifion sy'n aros am lawdriniaethau dewisol eraill.

**Os ydych yn parhau â'r ymyriad hon:**

Awgrymir bod angen gwaith ymchwil cadarn pellach a gwerthuso effaith yn drylwyr.

# Llawdriniaeth orthopedig:

**Ymyriadau hunanreoli addysgol a seicolegol aml-gydrannol ar gyfer cleifion sy'n aros i gael gosod clun neu ben-glin newydd cyflawn.**[(5)]

*Sylwer, gan mai dim ond un astudiaeth sydd wedi'i nodi yn y categori hwn, mae'r canlyniadau wedi'u graddio fel tystiolaeth annigonol yn ddiofyn. Er gwaethaf hyn, gwnaed ymgais yn y crynodeb i adrodd ar effeithiolrwydd yr astudiaeth.*

Crynodeb o'r ymyriad:

Archwiliodd un astudiaeth[(5)] o ansawdd cymedrol ymyriad hunanreoli addysgol a seicolegol aml-gydrannol ar gyfer cleifion ar restrau aros am osod clun neu ben-glin newydd cyflawn a chymharu hyn â grŵp rheolydd arferol.

Roedd yr ymyriad yn cynnwys sesiwn gosod nodau wyneb yn wyneb (cyfweliad 'Partneriaid mewn Iechyd') gyda nyrs ymchwil a llunio cynllun gofal hunanreoli manwl, ynghyd â sgyrsiau ffôn misol dilynol i atgyfnerthu strategaethau hunanreoli (nifer cyfartalog y galwadau a wnaed i bob cyfranogwr oedd 5.2). Roedd cyfranogwyr yn y grŵp ymyriad yn cael mynediad at gydran addysg draddodiadol a galwadau ffôn cefnogaeth gan gymheiriaid hefyd. Gwelwyd cleifion eto ar ôl chwe mis, ni waeth a oeddent wedi cael llawdriniaeth ai peidio.

Canlyniadau:

Mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd **ymyriadau hunanreoli addysgol a seicolegol aml-gydrannol i gleifion sy'n aros am osod clun neu ben-glin newydd cyflawn yn ddiffygiol** ar gyfer y canlyniadau canlynol:

*Stiffrwydd:*

- **Gallai fod yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos effaith arwyddocaol ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[(5)]

*Effaith Addysg Iechyd*[2]*:*

- **Anghyson** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol, effeithiau anghyson ar draws y gwahanol barthau a fesurwyd).[(5)]

*Poen:*

[2] Cafodd Effaith Addysg Iechyd ei fesur gan holiadur HEIQ a oedd yn edrych ar effeithiolrwydd y rhaglen addysg iechyd ar draws 8 parth: ymgysylltu'n frwd a chadarnhaol mewn bywyd, ymddygiad a gyfarwyddir gan iechyd, caffael sgiliau a thechnegau, agweddau a dulliau adeiladol, hunan-fonitro a dealltwriaeth, llywio'r gwasanaeth iechyd, integreiddio a chymorth cymdeithasol, a lles emosiynol

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[5]

*Gweithrediad:*

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[5]

*Ansawdd Bywyd sy'n Gysylltiedig ag Iechyd:*

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[5]

*Iselder:*

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[5]

**Sylwadau'r Gwasanaeth Tystiolaeth:**

Dylid nodi bod rhai cyfranogwyr yn y grwpiau ymyriad a dan reolaeth wedi cael llawdriniaeth yn ystod y cyfnod dilynol, ond eu bod yn dal i gael eu cyfrif yn y dadansoddiadau, felly mae'r canfyddiadau'n ymwneud â chyfranogwyr sy'n dal i aros am lawdriniaeth ac sydd eisoes wedi cael llawdriniaeth.

**Y gallu i gyffredinoli:**

Cynhaliwyd yr ymyriad yn Awstralia[5], felly dylid ystyried ymhellach a ellid ei gyffredinoli i Gymru.

**Cymhwysedd:**

Roedd y dystiolaeth ar gyfer y canlyniadau a restrir uchod yn deillio o gleifion a oedd yn aros am lawdriniaeth gosod clun neu ben-glin newydd cyflawn, ac felly efallai na fydd yn berthnasol i gleifion sy'n aros am lawdriniaethau dewisol eraill.

**Os ydych yn parhau â'r ymyriad hon:**

Awgrymir bod angen gwaith ymchwil cadarn pellach a gwerthuso effaith yn drylwyr.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Rhaglenni cydrannol rheoli poen (yn ymgorffori technegau seicolegol ac addysg) ar gyfer cleifion sy'n aros am glun newydd cyflawn.**[4]

*Sylwer, gan mai dim ond un astudiaeth sydd wedi'i nodi yn y categori hwn, mae'r canlyniadau wedi'u graddio fel tystiolaeth annigonol yn ddiofyn. Er gwaethaf hyn, gwnaed ymgais yn y crynodeb i adrodd ar effeithiolrwydd yr astudiaeth.*

Crynodeb o'r ymyriad:

Archwiliodd un astudiaeth[4] o ansawdd cymedrol effaith rhaglen rheoli poen aml-gydrannol i gleifion sy'n aros am lawdriniaeth clun newydd cyflawn a chymharu hyn â grŵp rheolydd nad oedd yn derbyn unrhyw ymyriad.

Cafodd y rhaglen rheoli poen a dderbyniwyd gan y grŵp ymyriad ei chyflwyno mewn sesiynau grŵp 1-2 fore'r wythnos dros 6 wythnos. Nod y rhaglen oedd addysgu cleifion i sicrhau newid ymddygiad a mynd i'r afael ag ofnau. Roedd yn cynnwys technegau seicolegol, ymarferol a chorfforol ar gyfer lleihau poen, anabledd a'i effaith ar hwyliau, rôl gymdeithasol a defnyddio gofal iechyd. Roedd ymlacio a ddysgwyd wedi'i gynnwys hefyd.

Roedd pob cyfranogwr gwaeth beth fo'r dyraniad grŵp yn derbyn gwybodaeth a chyngor ysgrifenedig hefyd, a chyfarwyddiadau ymarfer corff cyn cael eu hapddewis ar gyfer yr astudiaeth. Yn y grŵp ymyriad, pwysleisiwyd yr ymarfer hwn yn gryf fel rhan o'r rhaglen rheoli poen, ond ni phwysleisiwyd yr ymarfer ymhellach ar gyfer y grŵp rheolydd.

Canlyniadau:

Mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd **rhaglenni rheoli poen aml-gydrannol i gleifion ar restrau aros am glun newydd cyflawn yn ddiffygiol** ar gyfer y canlyniadau canlynol:

*Poen:*

- **Gallai fod yn effeithiol** (un o ansawdd cymedrol yn dangos gwelliant arwyddocaol yn y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[4]

*Statws Iechyd:*

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[4]

*Gweithrediad:*

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[4]

*Defnydd o gyffuriau poenleddfol:*

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos nad oedd unrhyw effaith ar gyfer y grŵp ymyriad o gymharu â'r grŵp rheolydd).[4]

*Oedi/canslo llawdriniaeth:*

- **Efallai na fydd yn effeithiol** (un astudiaeth o ansawdd cymedrol yn dangos dim gwahaniaethau rhwng y grŵp ymyriad a'r grŵp rheolydd mewn penderfyniadau i gael llawdriniaeth i osod clun newydd cyflawn).[4]

Y gallu i gyffredinoli:

Cynhaliwyd yr astudiaeth yn y DU,[4], ac felly efallai y gellir ei chyffredinoli i Gymru.

Cymhwysedd:

Roedd y dystiolaeth ar gyfer y canlyniadau a restrir uchod yn deillio o gleifion a oedd yn aros am lawdriniaeth i osod clun newydd cyflawn, ac felly efallai na fydd yn berthnasol i gleifion sy'n aros am lawdriniaethau dewisol eraill.

Os ydych yn parhau â'r ymyriad hon:

Awgrymir bod angen gwaith ymchwil cadarn pellach a gwerthuso effaith yn drylwyr.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## Cyfeiriadau:


1. Furze G, Dumville JC, Miles JN, Irvine K, Thompson DR, Lewin RJ. "Prehabilitation" prior to CABG surgery improves physical functioning and depression. Int J Cardiol. 2009;132(1):51-8.
2. McHugh F, Lindsay GM, Hanlon P, Hutton I, Brown MR, Morrison C, et al. Nurse led shared care for patients on the waiting list for coronary artery bypass surgery: a randomised controlled trial. Heart. 2001;86(3):317-23.
3. Goodman H, Parsons A, Davison J, Preedy M, Peters E, Shuldham C, et al. A randomised controlled trial to evaluate a nurse-led programme of support and lifestyle management for patients awaiting cardiac surgery 'Fit for surgery: Fit for life' study. Eur J Cardiovasc Nurs. 2008;7(3):189-95.
4. Berge DJ, Dolin SJ, Williams AC, Harman R. Pre-operative and post-operative effect of a pain management programme prior to total hip replacement: a randomized controlled trial. Pain. 2004;110(1-2):33-9.
5. Crotty M, Prendergast J, Battersby MW, Rowett D, Graves SE, Leach G, et al. Self-management and peer support among people with arthritis on a hospital joint replacement waiting list: a randomised controlled trial. Osteoarthritis Cartilage. 2009;17(11):1428-33.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd sydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3/ ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.
Cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w nodi.

ISBN: 978-1-83766-332-3